

TAG SAFON UWCH



TAG SAFON UWCH CBAC ASTUDIAETHAU CREFYDDOL

ACHREDWYD GAN LYWODRAETH CYMRU

GEIRFA ALLWEDDOL IDDEWIAETH

Addysgu o 2016



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Lywodraeth Cymru ar gael i ganolfannau yn Lloegr.

ASTUDIO IDDEWIAETH : GEIRFA	
TERM	DIFFINIAD
achos Dreyfus	Achos Alfred Dreyfus (1894-1906): ei achos llys a'r galw cyhoeddus am 'Farwolaeth i'r Iddew'; mae'n ymddangos mai dyma a wnaeth i'r newyddiadurwr Theodor Herzl (1860-1904) ddod i'r casgliad mai'r unig ateb i erledigaeth yr Iddewon oedd sefydlu mamwlad iddynt.
Aggadah	Yn cyfeirio at destunau esboniadol nad ydynt yn gyfreithiol mewn llenyddiaeth rabinaidd glasurol Iddewig, yn enwedig fel y maen nhw wedi eu cofnodi yn y Talmud a'r Midrash.
agunah	Yn llythrennol, 'mewn cadwyni' neu 'wedi'i chlymu', gan ddisgrifio merch sydd wedi priodi ond wedi gwahanu oddi wrth ei gŵr ac yn methu ag ailbriodi, neu'n benodol, merch y mae ei gŵr yn gwrthod ei hysgaru.
bereshit	Yn llythrennol, 'yn y dechreuad' a geiriau cyntaf y Torah, er bod cryn ddadlau ynghylch gwir ystyr y term hwn a'i oblygiadau.
derash	Yn gysylltiedig â'r gair 'midrash'; esboniad o destun Hebraeg drwy ei gymharu â thestunau tebyg eraill a chymhwysu'r ystyr.
devekut	'Ymlyniad i Dduw'; 'ymrwymiad'; yn disgrifio cyflwr lle mae Duw yn y meddwl yn barhaus, neu gyflwr o fod gyda Duw. Cysyniad a geir mewn ysgrifau Hasidig yn bennaf.
En Sof	Weithiau, defnyddir y term hwn yn y Kabbalah i gyfeirio at hanfod Duw; pan fydd yn cael ei ddefnyddio'n fwy manwl gywir, mae'n cyfeirio at oleuni anfeidrol Duw, cyn dechrau proses y creu.
Gemara	Yn golygu 'cwbllhad'. Trafodaethau rabinaidd am y Mishnah. Archwiliad gofalus o'r Mishnah fesul brawddeg; gellir ei ystyried yn estyniad ac yn ymhelaethiad ar y Mishnah ac, felly, yn rhan o'r Talmud.
gwrth-Semitiaeth	Casineb tuag at Iddewon neu ragfarn yn eu herbyn, a gweithredoedd cysylltiedig o gamwahaniaethu.
Halakah	Cyfraith Iddewig; yn dod o'r gwreiddyn halakh, 'mynd' neu 'gerdded'; mae'r halakah yn ymwneud â'r gyfraith Iddewig gyfan – rheolau a rheoliadau Iddewon wrth iddynt 'gerdded' drwy fywyd.
Holocost	'Dinistrio â thân' ar raddfa fawr; neu 'aberth a ddinistriwyd yn llwyr gan dân'. Defnyddir y term yn aml i ddisgrifio hil-laddiad y Natsïaïd o dros chwe miliwn o Iddewon Ewropeaidd yn ystod y cyfnod rhwng 1941 a 1945. Defnyddir y term 'Shoah' (sy'n golygu 'catastroffi') hefyd yn aml i ddisgrifio'r cyfnod hwn.
Kabbalah	Traddodiad cyfriniol Iddewig a gafodd ei ddatblygu yn yr 11eg a'r 12fed ganrif, ac a gyrhaeddodd ei anterth yn y Zohar, 'Goleuni' neu 'Ddisgleirdeb', gwaith clasurol y Kabbalah.
kashrut	Y cyfreithiau sy'n llywodraethu'r mathau o fwyd y gall Iddewon eu bwyta. Mae gwreiddiau'r cyfreithiau hyn yn y Beibl, y rhan fwyaf ohonynt yn Lefiticus 11 a Deuteronomium 14.
kibbutz	Cymuned gyfunol yn Israel, yn seiliedig ar amaethyddiaeth yn draddodiadol. Cymdeithas wirfoddol lle mae pobl yn byw er mwyn helpu ei gilydd, a thros gyfiawnder cymdeithasol.

TERM	DIFFINIAD
Maimonides	Athronydd Iddewig Sbaenaidd o'r Canol Oesoedd ac ysgolhaig y Torah; enw arall arno yw Rambam.
Midrash	Yn golygu 'chwilio' neu 'durio' ac yn cyfeirio at y dull o ddehongli'r Ysgrhythurau Hebraeg yn hytrach na'r testun gwirioneddol ei hun.
mitzvot	Gorchmynion.
peshat	Ystyr syml, llythrennol testun a ddefnyddir yn y midrash.
pikuach nefesh	Y rhwymedigaeth i achub bywyd; y cysyniad Iddewig o 'sancteiddrwydd bywyd'. Daw pikuach nefesh o'r adnod feiblaidd, "Nid wyt i fynd o amgylch yn enllibio ymysg dy bobl na pheryglu bywyd dy gymydog" (Lef. 19:16). Yn ôl pikuach nefesh, rhaid i unigolyn wneud popeth o fewn ei allu i achub bywyd unigolyn arall.
Rashi	Rabbi Iddewig Ffrengig o'r Canol Oesoedd a oedd yn enwog am ei sylwadau cynhwysfawr ar destunau Hebraeg.
rebbe	Amrywiad ar 'rabbi', ond fe'i defnyddir i wahaniaethu rhwng rabbi ac arweinydd / meistr Hasidig a elwir hefyd yn tzaddik (zaddik). Ei brif swyddogaeth fyddai addysgu'r Torah a gwneud penderfyniadau ar gyfraith Iddewig, ond byddai hefyd yn gweithredu fel tywysydd ysbrydol a fyddai'n gweddïo ar ran ei ddilynwyr.
remez	Dehongliad alegorig o destun a ddefnyddir yn y midrash.
Sefirot	Rhinweddau yn tarddu o ffynhonnell: yn ôl y ffordd gyfriniol Iddewig o feddwl, y deg sefirot yn tarddu o En Sof.
Seioniaeth	Yr awydd i ddychwelyd i 'Seion' a gysylltir yn aml â'r Mudiad Seionaidd – y mudiad a ddechreuodd ar ddiwedd y 19eg ganrif gyda'r nod o sefydlu mamwlad i'r Iddewon ym Mhalestina.
sod	Yn llythrennol, dehongliad cyfriniol 'cudd' o destun a ddefnyddir yn y midrash.
Talmud	Yn llythrennol, 'addysgu' neu 'astudio': gwaith cyfunol ysgolheigion, yn sylwebaeth barhaus ar y Mishnah. Mae dau Talmud: un Palestinaidd a Babylonaidd sy'n myfyrio ar yr Ysgrhythurau Iddewig ac yn ganllaw iddynt.
tashlikh	Ymolchi defodol yn rhan o Rosh Hashanah i gael gwared ar bechodau; gwneir hyn mewn afon, yn y môr neu mewn ffrwd fel arfer.
Tikkun Olam	Cysyniad sy'n cael ei ddiffinio gan weithredoedd caredig a wneir er mwyn perffeithio, atgyweirio neu wella'r byd. Mae'r ymadrodd i'w weld yn y Mishnah, corff o ddysgeidiaethau rabinaidd clasurol. Mae'n cael ei gysylltu â gweithredu cymdeithasol a chyfiawnder cymdeithasol.